# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Hydref 2005

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad cynnydd am y cais Amcan Un a gyflwynwyd i WEFO gyda golwg ar Brosiect Cwmni Egni Abergynolwyn Cyf. (WAQ44475)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa benderfyniad a wnaethpwyd gan WEFO gyda golwg ar gais Amcan Un ar gyfer Prosiect Cwmni Egni Abergynolwyn Cyf. (WAQ44476)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn o WAQ43356, pa gyngor a dderbyniodd WEFO oddi wrth Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda golwg ar Brosiect Cwmni Egni Abergynolwyn Cyf. (WAQ44477)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gyngor y mae WEFO wedi ei roi'n ddiweddar i Gwmni Egni Abergynolwyn Cyf gyda golwg ar eu prosiect llosgi ysglodion pren a oedd i ddarparu d•r poeth a gwres i bentref Abergynolwyn. (WAQ44478)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am geisiadau cynllunio ôl-weithredol a'u pwrpas. (WAQ44479)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa ddadansoddiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gamfanteisio posibl gan unigolion neu grwpiau ar y defnydd o gynllunio ôl-weithredol i gael caniatâd cynllunio ar ôl datblygu, a fyddai fel arfer wedi'i wrthod i ddechrau. (WAQ44481)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gost Ysbyty Cymunedol Prestatyn fesul gwely a sut mae'n cymharu gyda chost gyfartalog gwely ysbyty cymunedol yng Nghymru. (WAQ44480)